



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o Aseiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yng Nghymru

Adran:

Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus

Ysgrifennydd y Cabinet/Y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol:

Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Dyddiad dechrau:

1 Ebrill 2020

Cyfeiriad e-bost cyswllt:

Socio-economicDuty@gov.wales

Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i achosi ansicrwydd aruthrol, nid lleiaf mewn perthynas â chydardoldeb a hawliau dynol. Mae degawdau o fod yn aelod o'r UE wedi creu gwaddol o fanteision sy'n ymwneud â sawl agwedd ar fywyd beunyddiol yng Nghymru, er enghraifft hawliau o ran cyflogaeth a'r amgylchedd a rheoliadau iechyd a diogelwch

Mae gweithredu i ddiogelu cydraddoldeb a hawliau dynol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Felly mae llinynnau gwaith yn cael eu datblygu, ac mae cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn un agwedd ar hynny. Gwnaeth Prif Weinidog Cymru bwysleisio pwysigrwydd cychwyn y ddyletswydd yng Nghymru drwy ei gynnwys yn ei fanifesto etholiad. O ganlyniad, gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip gyflwyno datganiad llafar gerbron y Cyfarfod Llawn ar 11 Mehefin 2019 ynghylch Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru lle y gwnaeth ymrwymo i gychwyn y ddyletswydd "yn gyflym iawn".

Bydd cychwyn y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu rheoliadau o dan Adran 2(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010¹ i restru'r cyrff cyhoeddus perthnasol y bydd y ddyletswydd yn berthnasol iddynt, ac yn cyflwyno newidiadau a fydd:

- yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff cyhoeddus perthnasol, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau strategol, i ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol;
- yn cefnogi camau gweithredu ehangach o ran diogelu cydraddoldeb a hawliau dynol;
- yn ategu ac yn gweithio gyda deddfwriaeth bresennol sy'n ceisio gwella cydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010¹ a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015².

Mae nodweddion anfantais economaidd-gymdeithasol yn gymhleth ac yn aml yn rhyng-gysylltiedig, er enghraifft, mae canlyniadau iechyd yn gwaethygu fwyfwy ar draws y graddiant economaidd-gymdeithasol³, mae cyfoeth cronedig isel/dim cyfoeth cronedig yn arwain at gartrefi heb fynediad neu fynediad cyfyngedig at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, megis trafnidiaeth, addysg a gwasanaethau gofal iechyd; diffyg symudedd cymdeithasol o ran cyfleoedd addysg uwch a chyfleoedd gyrfa; a'r gwahaniaethu sy'n wynebu rhai unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig⁴.

Bydd cychwyn y ddyletswydd yn rhoi cyfle inni wneud pethau'n wahanol, gan sicrhau bod mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn rhan ganolog o brosesau cyrff cyhoeddus perthnasol o wneud penderfyniadau strategol. Bydd y gwaith hwn yn y pen draw yn adeiladu ar y gwaith da y mae cyrff cyhoeddus eisoes yn ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â chynlluniau i gryfhau ein trefniadau partneriaethau cymdeithasol gan y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a'r Bil Partneriaethau Cymdeithasol posibl yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o safbwyntiau gwahanol.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted>

³ <http://www.arsyllfaiechydchyhoedduscymru.wales.nhs.uk/anghydraddoldeb-ac-annhegwch>

⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/social-mobility-in-great-britain-state-of-the-nation-2018-to-2019>

1. Sut y mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Bydd yr ymgynghoriad yn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid allweddol ynghylch pa gyrrff cyhoeddus y dylai'r ddyletswydd fod yn berthnasol iddynt a sut y dylid gweithredu'r ddyletswydd honno. Gellir gweld yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft a'r ymgynghoriad drwy'r ddolen hon: <https://llyw.cymru/deddf-cydraddoldeb-2010-cychwyn-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol>

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei hyrwyddo'n eang drwy gyfrwng arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru, ein rhwydweithiau cydraddoldebau, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, partneriaid trydydd sector a sefydliadau ar lawr gwlad i sicrhau nad yw'r ymgynghoriad wedi'i anelu at y cyrrff cyhoeddus perthnasol yn unig ond hefyd at aelodau o'r cyhoedd sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ddechrau ar y gwaith ymgysylltu ar y ddyletswydd ym mis Hydref pan wnaeth gyflwyniad mewn tri digwyddiad Cyfnewidfa Cydraddoldeb a drefnwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ledled Cymru. Mae'r rhain wedi cyd-daro â thrafodaethau ar y cynigion a gynhaliwyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal gweithdai yn ystod yr ymgynghoriad i helpu i godi ymwybyddiaeth a llywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau ategol.

Er mwyn cefnogi'r cyrrff cyhoeddus perthnasol, bydd canllawiau 'interim' yn cael eu cyhoeddi ar 1 Ebrill 2020, am gyfnod o ddwy flynedd, a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd cyn cyhoeddi canllawiau statudol 'terfynol' ar 1 Ebrill 2022. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu cynllunio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr cyrrff cyhoeddus perthnasol, a rhanddeiliaid allweddol eraill drwy gyfres o ddigwyddiadau.

Er y bydd y ddyletswydd ar waith fel dyletswydd statudol o 1 Ebrill 2020, bwriadwyd i'r cyfnod gweithredu arfaethedig gyfleu y bydd dull gweithredu 'ysgafnach' ar waith yn ystod dwy flynedd gyntaf y ddyletswydd, er mwyn caniatáu amser i Lywodraeth Cymru weithio gyda chyrrff cyhoeddus perthnasol i fireinio'r canllawiau ac i'r cyrrff cyhoeddus perthnasol ddeall y gofynion yn llawn a'u hymgorffori yn eu harferion gweithio presennol. Bydd y dull hwn hefyd yn ei gwneud hi'n bosibl i nodi a rhannu astudiaethau achos arferion da sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol wrth weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

Bydd y dull gweithredu hwn ar gyfer llunio'r canllawiau interim yn rhoi cyfle i adolygu ac i ymgysylltu'n barhaus i sicrhau bod y ddyletswydd yn gweithio fel y dylai i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i ailasesu'r tybiaethau a wnaed yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a'r asesiad effaith ehangach.

2. Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Ochr yn ochr â'r costau a'r manteision a gyflwynwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft, mae nifer o effeithiau posibl eraill wedi cael eu hystyried ac mae asesiad effaith integredig wedi'i gynnal. Rhoddir crynodeb o ganfyddiadau'r broses hon isod.

Daeth Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i'r casgliad nad yw cychwyn y ddyletswydd yn effeithio'n uniongyrchol ar Erthyglau'r Cenhedloedd Unedig, ac nad yw'n effeithio'n negyddol ar hawliau plant chwaith. Mae'n well mynd i'r afael â chylch o tlodi a chyfle/dyhead yn gynharach mewn bywyd^{5 6}, a chan sicrhau felly bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn ystyried y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol. Disgwylir i hawliau plant a chyfleoedd bywyd wella.

Cafodd effaith bosibl cychwyn y ddyletswydd ar bobl mewn grwpiau gwarchoddedig a'r rhai sy'n byw mewn cartrefi incwm isel ei hystyried mewn Asesiad Effaith ar Gydraddoldebau. Er y bydd y cynigion o fantais i lesiant poblogaeth Cymru gyfan, daeth yr asesiad i'r casgliad y bydd y manteision yn effeithio ar unigolion a grwpiau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae graddau gwahanol o dystiolaeth^{7 8} o ran y gydberthynas rhwng nodweddion gwarchoddedig a thlodi (o ran rhywedd, hil, anabledd, crefydd a chred a chyfeiriadedd rhywiol).

Gwnaeth yr Asesiad Effaith Prawfesur Polisiâu o Safbwynt Anghenion Cefn Gwlad ystyried effaith y ddyletswydd ar gymunedau cefn gwlad a'r unigolion sy'n byw yn y cymunedau hynny. Canfu, ar y cyfan, fod disgwyl i'r cynigion gael effaith gadarnhaol net fach ar bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig. Mae pobl sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd gwledig a threfol yn debygol o brofi diffyg adnoddau ariannol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth^{9 10} yn awgrymu bod ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o brofi 'amddifadedd cyfle' (ee diffyg swyddi a gwasanaethau) ac 'amddifadedd symudedd' (ee mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau).

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd mewn perthynas â'r ddyletswydd. Ni fydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i gadw neu brosesu unrhyw wybodaeth bersonol newydd gan y cyrff cyhoeddus perthnasol y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt.

Cafodd yr effaith ar y Gymraeg ei harchwilio drwy Asesiad Effaith ar y Gymraeg. Ni ddisgwylir y bydd y ddyletswydd yn cael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg nac ar gymunedau Cymraeg.

Daeth y gwaith o ystyried effaith y ddyletswydd ar fioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd ac adnoddau naturiol i'r casgliad y byddai effaith gyfyngedig ar y meysydd hyn. Penderfynwyd nad oedd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Effaith ar Gyllidebau Carbon. Mae'n bosibl y bydd effaith gadarnhaol net ar yr amgylchedd wrth weithredu'r ystyriaethau economaidd-gymdeithasol i benderfyniadau o natur strategol h.y. gall mynd i'r afael â materion trafndiaeth lleol sy'n rhwystr i waith hefyd helpu'r amgylchedd drwy ddarparu dewis arall i drafndiaeth breifat a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Iechyd wedi gwerthuso'r effeithiau a ragwelir gan y ddyletswydd ac wedi dod i'r casgliad y bydd gosod anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol wrth wraidd prosesau cyrff cyhoeddus perthnasol o wneud penderfyniadau yn arwain at wella canlyniadau iechyd ar gyfer pobl Cymru ac y bydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol cyffredinol at leihau

⁵ <https://heckmanequation.org/resource/invest-in-early-childhood-development-reduce-deficits-strengthen-the-economy/>

⁶ <http://www.dwp.gov.uk/docs/early-intervention-next-steps.pdf>

⁷ <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/wales-fairer-2018>

⁸ <https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebriill-2017-i-mawrth-2018>

⁹ <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/An-introduction-to-Rural-Poverty.pdf>

¹⁰ [Erthygl MALIC ar amddifadedd gwledig](#)

anhydraddoldebau iechyd yng Nghymru. Er bod nodweddion anfantais economaidd-gymdeithasol yn gymhleth ac yn aml yn rhyng-gysylltiedig, mae canlyniadau iechyd a disgwyliad oes yn gwaethygu fwyfwy ar draws y graddiant economaidd-gymdeithasol, ac mae cyfoeth cronedig isel/dim cyfoeth cronedig yn arwain at gartrefi heb fynediad neu fynediad cyfyngedig at nwyddau a gwasanaethau sylfaenol, megis gofal iechyd.

Daeth Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder i'r casgliad fod y cynigion yn debygol o gael dim effaith neu effaith fach ar y system gyfiawnder.

3. Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn gwneud cymaint o gyfraniad â phosibl at y nodau llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015², bydd y ddyletswydd yn cefnogi **gwelliannau hirdymor** drwy ystyried sut y gallai penderfyniadau strategol atal/liniaru anfantais economaidd-gymdeithasol, a sut y maent yn anelu at **atal** anfantais economaidd-gymdeithasol yn y tymor byr a'r hirdymor. Bydd yn gwneud hyn drwy symud ffocws penderfyniadau strategol tuag at un sy'n ystyried effaith penderfyniadau strategol ar anfantais economaidd-gymdeithasol, gan fanteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd cydraddoldeb presennol sy'n bodoli mewn cyrff cyhoeddus perthnasol i helpu i lywio asesiadau economaidd-gymdeithasol.

Gallai'r ddyletswydd sicrhau bod cyrff cyhoeddus perthnasol yn gwneud cymaint o gyfraniad â phosibl at gyflawni'r nodau llesiant a'r saith nod llesiant drwy ystyried y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol, a osodwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015², sy'n berthnasol i anhydraddoldebau ac sy'n cyfrannu'n fwyaf arwyddocaol at nod llesiant **Cymru Fwy Cyfartal** - i greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).

Mae cyswllt diamheuol rhwng anhydraddoldeb ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015² wedi cryfhau camau gweithredu i alluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau bod fframwaith cynhwysfawr ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn 44 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru i ymdrin â'r her o ran mynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol sy'n pontio cenedlaethau. Mae'n darparu ar gyfer un egwyddor ('yr egwyddor datblygu cynaliadwy') i lywio sut y mae cyrff cyhoeddus yn arfer swyddogaethau fel eu bod yn ystyried sut y maent yn diwallu anghenion cenedlaethau heddiw heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain er mwyn mynd i'r afael yn well â heriau hirdymor megis anhydraddoldebau o ran canlyniad. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 felly'n cefnogi'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ceisio gwella cydraddoldeb yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010¹ (a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru) a chychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

4. Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phryd y bydd yn dod i ben?

Credwn nad yw'n fuddiol ceisio creu fframwaith mesur arall i fonitro effaith y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Drwy gysoni'r ddyletswydd â fframweithiau presennol (megis gofynion adrodd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)², mae'n caniatáu i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried effaith eu penderfyniadau yn unol â dangosyddion sy'n bodoli eisoes.

Yn ystod y cyfnod hyd at 1 Ebrill 2022, pan fydd y canllawiau statudol 'terfynol' yn cael eu cyhoeddi, bydd y swyddogion yn cynnal rhaglen i adolygu ac i ymgysylltu'n barhaus i sicrhau bod y ddyletswydd yn gweithio fel y dylai i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniad sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys adolygu sut y mae'r ddyletswydd yn cyd-fynd â fframweithiau a dangosyddion sy'n bodoli eisoes.

Yn ystod y cyfnod hwn bydd yr asesiad effaith rheoleiddiol a'r asesiadau effaith cyffredinol yn parhau i gael eu hadolygu.

DRAFT